# PWYLLGOR CRAFFU AR Y CYD – CYMUNEDAU A GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
# 23ain GORFFENNAF 2015

***(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGORAU YN EU CYFARFOD NESAF)***

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)**
**Y Cynghorydd G.Thomas (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr:** **Y Pwyllgor Craffu – Cymunedau**
**J.M. Charles, W.R.A. Davies, J.K. Howell, H.I. Jones, J. Owen, H.B. Shepardson, E.G. Thomas, G.B. Thomas, J. Thomas**

**Y Cynghorwyr:** **Y Pwyllgor Craffu – Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**
**S.M. Allen, S.M. Caiach I.W. Davies, T.T. Defis, P.M. Edwards, W.T. Evans, K. Madge, J.S. Williams**

**Y Cynghorydd A.P. Cooper – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd J. Williams**
**Y Cynghorydd J.James – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd E. Morgan**
**Y Cynghorydd A.W. Jones – Yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd T. Devichand**

**Hefyd yn bresennol:**
**Y Cynghorydd L.D. Evans – Yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Dai**
**Y Cynghorydd J. Tremlett – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd**

**Hefyd yn bresennol:**
**Y Cynghorydd J. Jones – Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd**

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
Mr J. Morgan – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
Mr A. Maynard – Y Pennaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Mr R. Staines – Y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Mr J. Morgan – Rheolwr y Gwasanaethau Tai
Mr D. Owen – Rheolwr Ardal Leol (Llanelli)
Mr J. Willis – Rheolwr y Gwasanaethau Tai (Cyngor a Dewisiadau)
Ms. B. Dolan – Uwch-ymgynghorydd

**Sylwedyddion:**
Mrs H. Smith – Rheolwr Cymorth Gweithredol, Cymunedau
Mr A. Passenger – Swyddog Safonau (Masnachu Teg)
**Y Man Cynnal: Siambr Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:00am – 12:55pm)**

## 1. PENODI CADEIRYDD Y CYFARFOD

Penderfynwyd yn unfrydol benodi'r Cynghorydd G. Thomas yn Gadeirydd ar gyfer eitemau 1–5 yr agenda a phenodi'r Cynghorydd D.M.Cundy yn Gadeirydd ar gyfer eitem 6.

# PWYLLGOR CRAFFU AR Y CYD – CYMUNEDAU A GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
# 23ain GORFFENNAF 2015

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr S.L. Davies, T. Devichand, D.J.R. Llewellyn, S. Matthews, E. Morgan, a J. Williams.

Hefyd derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M. Gravell, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden.

## 3. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 4. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 5. HYBU ANNIBYNIAETH POBL HŶN YN SIR GAERFYRDDIN

Cafodd y Pwyllgor Craffu ar y Cyd gyflwyniad a oedd yn gyfle i ymgynghori ynghylch y strategaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau i Bobl Hŷn. Fe'i hysbyswyd bod 390 o ymatebion wedi dod i law hyd yn hyn oddi ar lansio'r ymgynghori. Byddai barn y Pwyllgor yn llunio rhan o'r cyflwyniad cyffredinol i'r Bwrdd Gweithredol ar 28ain Medi 2015.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol:

Gwnaed sylwadau ar yr angen i edrych ar wahanol fodelau darpariaeth ar gyfer agweddau ar y gwasanaethau cyffredinol i bobl hŷn, natur dros dro rhai cymunedau lleol, pobl hŷn yn symud i'r sir i ymddeol, yn ogystal â'r ffaith fod pobl yn byw'n hwy a bod llawer ohonynt yn dal i fod yn egnïol ac yn iach. Cytunodd y Cyfarwyddwr fod proffil pobl hŷn wedi newid yn sylweddol oddi ar i'r gwasanaethau gael eu sefydlu'n wreiddiol. Bellach roedd gan lawer o bobl hŷn fwy o annibyniaeth ariannol a oedd yn caniatáu mwy o amrywiaeth o ddewisiadau gweithredol. Cyfeiriodd at ddarpariaeth y canolfannau dydd y gwnaed 50% o ddefnydd ohonynt mewn rhai mannau gan nad oedd ar bobl hŷn eisiau'r math hwn o fodel gwasanaeth mwyach. Hefyd roedd amrywioldeb o ran y ddarpariaeth yn dibynnu ar bwy oedd yn cynnal yr asesiad, ac yn lle. Roedd y cyllid angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau presennol yn anghynaliadwy ac felly roedd angen newidiadau radical o ran y modd y darperid rhai meysydd gwasanaeth ac o ran yr hyn a ddarperid.

Mewn ymateb i bryderon ynghylch cyllidebau llai llywodraeth leol, dywedodd y Cyfarwyddwr pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu diogelu addysg ac ysgolion, y byddai hyn yn rhoi'r gwasanaethau eraill o dan hyd yn oed yn fwy o bwysau ac yn lleihau hyblygrwydd yn sylweddol. Fodd bynnag roedd opsiwn i ddatblygu rhagor o

gymorth i ddarpariaeth gymunedol gan ddefnyddio symiau cymharol fach a chyda chymorth cynghorau tref a chynghorau cymuned lleol. Roedd yn hanfodol bod yn fwy creadigol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Gwnaed sylwadau ar y ddarpariaeth sector preifat a'r angen am fonitro a sicrhau ansawdd yn effeithiol o ran unrhyw ddarpariaeth a gomisiynwyd gan yr Awdurdod. Cytunodd y Cyfarwyddwr fod yr olaf o'r ddau yn hanfodol a hefyd mynegodd farn o blaid cadw economi gymysg gan ei fod yn barnu y byddai hyn yn fwy diogel. Fodd bynnag mater i'r Cyngor llawn fyddai penderfynu ynghylch hyn.

Cwestiynwyd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ymgynghori gan y bernid bod cwestiynau mwy uniongyrchol wedi'u hepgor y byddai'r cyhoedd wedi dymuno eu hateb. Bernid hefyd fod nifer yr ymatebion a gafwyd hyd yn hyn yn gymharol isel. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod llawer o feddwl a gwaith yn sail i lunio'r ymgynghoriad. Y broblem o ran cwestiynau uniongyrchol oedd eu bod yn llywio'r ymateb. Hwn oedd cam cyntaf yr ymgynghori ac roedd yn briodol i gael trafodaeth agored iawn â'r cyhoedd a'r Aelodau ar sut i lunio'r polisi hwn. Yr ail gam fyddai gweithredu'r syniadau a ddeilliai o'r canlyniadau. Anogodd yr Aelodau i gymell eu preswylwyr i ymateb, gan bwysleisio bod hyn yn ymwneud â datblygu gwasanaethau at y dyfodol.

Gofynnwyd a oedd unrhyw beth blaenweithgar yn cael ei wneud i hybu mentrau cymdeithasol 'nid er elw' o fewn y gwasanaethau. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y model menter gymdeithasol ar sail cwmni masnachu yn un o'r dewisiadau i'w hystyried ar gyfer rhai gwasanaethau. Gallai'r model fod yn fwy entrepreneuraidd, gan ganiatáu helaethu, a lleihau costau hefyd. Byddai angen datblygu achos busnes ond byddai'n beth da creu darpariaeth gymysg ffyniannus. Gallai hefyd fod yn fodd o gael buddsoddiad cyfalaf ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal, yr oedd rhai ohonynt yn methu â thalu ffordd yn ariannol oherwydd eu maint. Byddai'n croesawu cael cyfeiriad gwleidyddol clir gan y Pwyllgor a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai unrhyw achos busnes yn ystyried manteision ac anfanteision y dewisiadau amryfal yn ogystal â'r broses iawn er mwyn dod i benderfyniad.

Mynegwyd pryderon am y cynnydd a ragwelid yn nifer y rhai â dementia yn y sir, y ffactorau a oedd yn effeithio ar hyn megis diffyg cysylltiad, yr angen am ddiagnosis effeithiol ac am wasanaethau gofal sylfaenol, yn ogystal â phwysigrwydd seibiant i ofalwyr. Cytunodd y Cyfarwyddwr, er bod niferoedd y rhai â dementia yn gymharol isel, fod lefel y gofal angenrheidiol yn sylweddol. Roedd 70% o'r rhai a fynychai ganolfannau dydd yn dioddef i ryw raddau o ddementia ac nid oedd y canolfannau wedi'u cynllunio i ymdrin ag anghenion cymhleth. Gofal preswyl i bobl â dementia oedd y maes twf mwyaf gan y byddai'n angenrheidiol i ddioddefwyr mewn achosion lle roedd y salwch wedi datblygu'n sylweddol. Aeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd ati i atgoffa'r Pwyllgor fod seminar i'r holl Aelodau wedi'i threfnu ar gyfer yr hydref er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia.

Gwnaed sylwadau ar gyllidebau ar wahân ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd a allai olygu bod cleientiaid mewn ffrydiau cyllido gwahanol o ran gofal parhaus.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cytuno i ystyried a oedd yn ymarferol cyfuno cyllidebau'r gwasanaethau i bobl hŷn er bod cyfyngiadau a chymhlethdodau mewn sawl maes. Soniodd am reolau Llywodraeth Cymru a oedd yn pennu terfyn taliadau ar gyfer pob pecyn gofal cymunedol, sef £55 yr wythnos ond nid ar gyfer gofal preswyl a oedd yn costio £500 – £600 yr wythnos.

Gwnaed sylwadau ar ymchwilio i'r dewisiadau o ran gweithio trawsffiniol mewn ardaloedd gwledig lle roedd yn anodd ac yn gostus darparu gwasanaethau megis gofal cartref. Cytunodd y Cyfarwyddwr fod hwn yn ddewis cadarnhaol i ymchwilio iddo mewn ardaloedd megis Llanymddyfri a oedd yn ffinio â De-orllewin Powys wledig.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL i'r Bwrdd Gweithredol:**

**5.1 Bod yr Adran Cymunedau'n ymchwilio i ddatblygu achos busnes ar gyfer defnyddio modelau mentrau cymdeithasol neu 'nid er elw' i ddarparu agweddau ar y gwasanaethau i bobl hŷn.**

**5.2 Bod yr Adran Cymunedau'n ymchwilio i ba agweddau ar y ddarpariaeth Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chymdeithasol allai ac a fyddai'n cael budd o gyfuno cyllidebau Gwasanaeth Iechyd Gwladol â chyllidebau Gofal Cymdeithasol i ddarparu gwasanaeth mwy cydlynol, cost effeithiol a chynaliadwy.**

## 6. EIN HYMRWYMIAD I DAI FFORDDIADWY

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd wedi'i gynhyrchu i greu darlun o’r ymgynghoriad helaeth â'r cyhoedd a chyrff sy'n bartneriaid i'r Cyngor sef ymgynghoriad a gynhaliwyd tan ddiwedd mis Mai 2015. Dywedwyd wrtho y cafwyd mwy na 1,000 o ymatebion, a amlygwyd yn y ddogfen. Hefyd roedd yr adroddiad yn amlinellu’r cefndir o ran yr angen am dai a'r tueddiadau demograffig yr oedd yn rhaid i'r Awdurdod ymateb iddynt, megis:

- y cynnydd yn nifer y bobl hŷn
- y cynnydd yn nifer y bobl sengl ac aelwydydd llai yn gyffredinol
- prinder gwahanol fathau o letyoedd mewn gwahanol rannau o'r sir
- problemau fforddiadwyedd a sut yr oedd y rhain yn amrywio ledled y sir.

Y bwriad oedd pennu cyfeiriad clir o ran y polisi a chyfres o egwyddorion cyn i gynllun cyflawni gael ei ddatblygu yn yr hydref.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Gwnaed sylwadau ar yr angen i fod yn hyblyg ac yn arloesol o ran yr ymagwedd at adeiladu a darparu tai fforddiadwy. Cafodd y tai fforddiadwy di-garbon yr oedd Prifysgol Caerdydd wedi'u hadeiladu'n ddiweddar eu crybwyll fel enghraifft. Roedd y galw mawr gan bobl sengl wedi'i nodi hefyd a gofynnwyd a anogid pobl i rannu tai. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai mai ailfodelu'r stoc bresennol oedd y dull

mwyaf cost-effeithiol. Roedd cynlluniau hefyd lle roedd landlordiaid yn derbyn pobl sengl i sefyllfa rannu.

Gwnaed sylwadau ar yr angen i sicrhau bod y seilwaith lleol ar gael i ganiatáu mynediad i wasanaethau hanfodol wrth asesu'r angen am dai.

Gwnaed sylwadau ar bwysigrwydd rhoi ystyriaeth ddwys i'r defnydd gorau o gyllid er mwyn darparu mwy o dai fforddiadwy. Cytunwyd yn gyffredinol â barn y cyhoedd ynghylch dechrau defnyddio tai gwag unwaith yn rhagor i ddarparu tai fforddiadwy ac ynghylch prynu hen dai Cyngor yn ôl. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod angen hyblygrwydd o ran y cyllido ond hefyd fod angen datblygu amrywiaeth eang o weithgareddau ar sail yr angen mewn gwahanol ardaloedd i ddarparu tai fforddiadwy. Dylai hyn gynnwys cynlluniau adbrynu lle'r oedd yr angen mwyaf. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai y rhoddwyd prawf ar brynu'n ôl yn achos tŷ 2 ystafell wely yn Llanelli a oedd wedi costio £77,000 i'w brynu a'i addasu er mwyn iddo fodloni'r safon, ac y gwnaed hynny mewn llai na 3 mis. Roedd yn llawer rhatach a chyflymach na chodi tŷ newydd.

Gwnaed sylwadau ar bwysigrwydd prynu tir addas i'w ddatblygu yn yr ardaloedd lle roedd yr angen mwyaf am dai.

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y dewis i lunio cwmni 'hyd braich' ar gyfer adeiladu tai newydd. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai yr ymchwilid i'r posibiliadau o ran sut beth y gallai hyn fod a'r hyn y gallai ei gyflawni. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod hwn yn gysyniad gwahanol i'r dewisiadau yn y drafodaeth Pobl Hŷn. O ran tai, gallai fod yn fodd o berchenogaeth lwyr i greu buddsoddiad gan na fyddai'r terfyn benthyca a osodwyd ar yr Awdurdod yn berthnasol iddo. Croesawodd gyfeiriad gwleidyddol clir ynghylch rhinweddau ymchwilio i'r dewis. Ychwanegodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai y byddai'r cwmni'n cael arian ar fenthyg ond y byddai'r Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw dai a gâi eu hadeiladu yn cyrraedd y safon iawn a byddent yn eiddo iddo.

Gwnaed sylwadau ar yr angen am dai mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, ac ar y cyfyngiadau o dan y Cynllun Datblygu Lleol a'r Polisi Cynllunio. Roedd y Cyfarwyddwr yn amau bod llawer o angen nas cofnodwyd mewn ardaloedd gwledig gyda phrinder tai fforddiadwy. Byddai'n bwysig edrych ar y dewisiadau mewn pentrefi gwledig a diffinio'r angen lleol am dai ar sail absoliwt yn hytrach na hapfasnachol.

Nodwyd bod adolygiad o'r polisi dyraniadau'n cael ei gynnal hefyd ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn ogystal â'r cynllun cyflawni ynghylch tai fforddiadwy.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL i'r Bwrdd Gweithredol y dylid:**

**6.1 Cymeradwyo'r adroddiad**

**6.2 Ymchwilio i fodelau newydd a datblygu achos busnes i greu cwmni masnachu 'hyd braich' perchenogaeth lawn er mwyn darparu mwy o dai fforddiadwy.**

**6.3 Cysylltu â Phrifysgol Caerdydd ynghylch ei hymchwil ddiweddar yn ymwneud â thai fforddiadwy di-garbon a'u hadeiladu ganddi.**